

Teithiau Cerdded yn Sir Gaerfyrddin

Carreg Cennen



GLAW neu HINDDA
mae'n werth dod yma

darganfod.sirgar.com



TAITH GERDDED 1a + 1b

- 1 Dechreuwch ym maes parcio Carreg Cennen. Ewch i fyny i gyfeiriad y castell mawreddog.
- 2 Wrth gât y castell, gallwch un ai ymweld â'r castell neu barhau i lawr y llwybr i'r dyffryn coediog godidog. Os ydych yn mynd ar y daith gerdded fer (1b), dilynwch yr arwyddion castell melyn a pharhau ar hyd y llwybr hyd nes y byddwch yn cyrraedd yr heol, ond ar gyfer y daith gerdded hirach (1a), dilynwch yr arwyddion castell coch, croesi'r afon a pharhau i fyny'r rhiw.
- 3 Croeswch Afon Cennen ac ewch i gyfeiriad y Mynydd Du gan ddilyn y llwybrau hynafol hyd nes y byddwch yn cyrraedd y man uchaf; cyn ichi gyrraedd yr heol, ceisiwch ddod o hyd i domenni clustog Beddau'r Derwyddon ar eich ochr chwith. Yna ewch i lawr yr heol, troi i'r dde a mynd yn ôl i lawr y dyffryn a heibio'r ffermydd hynafol.
- 4 Ewch yn eich blaen drwy'r caeau a chrosi'r afon gan ymuno â'r llwybr castell melyn wrth iddo ddilyn yr heol o amgylch y castell cyn dychwelyd i'r caffi.

TAITH CERDDED 2

- 1 Parciwch eich car yn y gilfan wrth droed y mynydd. Byddwch chi'n gallu gweld y llwybr sy'n mynd tuag at y copa. Dilynwch y llwybr hwn i gopa'r mynydd.
- 2 Ar y copa byddwch chi'n gallu gweld 3 carnedd o'r Oes Efydd, sy'n dyddio o oddeutu 2000CC, a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer claddu. Gelwir y copa yn "Pen Tair Carn" sef copa'r 3 carnedd!
- 3 Gallwch un ai barhau ar draws y llwyfandir hyd at y clwstwr nesaf o garneddau neu gallwch ddychwelyd ar hyd yr un llwybr i'ch car.

Taith 1a - Tua 2 1/4awr
(tua 7.5km).
Taith 1b - Tua 1awr
(tua 2 1/2km).
Taith 2 - Tua 3awr
(Tua 3km).

✓ Teithiau Cerdded teulu

! Nid yw'n addas ar gyfer cadeiriau gwthio neu gadeiriau olwyn

🚲 Ardaloedd mwdlyd/gwlyb

🐾 Cadwch gŵn ar denyn

! Ardalyr afon beryglus yma arhoswch ar y trywydd



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council